**<u>Ymgynghoriad Pwyllgor Busnes Y Senedd ar Ddiwygio'r Senedd: Ymateb Grŵp Senedd Plaid Cymru</u>**

***Hydref 2022***

1. Mae Grŵp Senedd Plaid Cymru (y Grŵp) yn croesawu'r cyfle i fwydo mewn i ymgynghoriad y Pwyllgor Busnes ar agweddau penodol o Ddiwygio'r Senedd, yn benodol mewn perthynas â'r 4 argymhelliad sy'n ymwneud â'u gwaith gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd.

2. Mae'r papur hwn yn adlewyrchu cyfeiriad mae'r Grŵp yn credu y dylid mynd i'r afael â'r trafodaethau ynghylch agweddau penodol ar gynigion Diwygio'r Senedd. Serch hynny, mae'r Grŵp yn ymwybodol y bydd angen i'r canlyniad a gytunwyd yn y pen draw mewn perthynas â'r 4 mater allu hawlio cefnogaeth dwy ran o dair o Aelodau'r Senedd sy'n pleidleisio dros y ddeddfwriaeth.

<u>Maint Llywodraeth Cymru mewn Senedd fwy</u>

3. Mae'r Grŵp yn deall, o ystyried bod diwygio'r Senedd yn rhannol yn ganlyniad i'r newid anadnabyddus yn natur a maint pwerau'r Senedd o gymharu â'r sefydliad a grëwyd ym 1999 a'r rheidrwydd y dylai'r Senedd ymgymryd â phwerau pellach yn y dyfodol. Mae hyn yn ei dro yn golygu y gallai maint y Llywodraeth angen cynyddu hefyd i adlewyrchu mwy o gyfrifoldebau gweithredol a phortffolio sydd eu hangen ar y Llywodraeth.

4. Fodd bynnag, ni ddylai hyn ddiystyru'r gyrrwr pwysig arall y tu ôl i ddiwygio, craffu, a sicrhau bod mwy o Aelodau meinciau cefn ar gael i graffu ar waith y Llywodraeth yn y Cyfarfod Llawn ac mewn cyfarfodydd Pwyllgor.

5. Felly, ni ddylai nifer Gweinidogion y Llywodraeth gynyddu ar gyfradd uwch na chynnydd Aelodau'r Senedd. Byddai hyn yn golygu mai'r trothwy ar gyfer nifer y Gweinidogion y Llywodraeth sy'n cael eu codi - yn ogystal â'r Prif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol - fydd 19.

6. Gallai'r ddeddfwriaeth hefyd ddarparu, fel mesur diogelu ychwanegol, i Reolau Sefydlog gynnwys darpariaeth y dylai unrhyw symud oddi wrth y nifer presennol o 12 o Weinidogion y Llywodraeth tuag at drothwy uwch o 19, gael ei gymeradwyo drwy bleidlais yn y Senedd, yn amodol ar fwyafrif syml.

Nifer y Dirprwy Lywyddion mewn Senedd fwy

7. Mae'r Grŵp o'r farn y byddai un Dirprwy Lywydd, ochr yn ochr â'r Llywydd yn ddigonol.

8. Pe bai'n dod yn gliriach bod angen capasiti ychwanegol, gallai Dirprwy Lywydd ychwanegol, neu Gadeirydd Dros Dro ar gyfer Cyfarfodydd Llawn gael ei ethol drwy weithdrefnau a nodir o fewn y Rheolau Sefydlog ar yr amod na fyddai hyn yn effeithio ar gydbwysedd gwleidyddol y Senedd mewn sefyllfa lle mae'r cydbwysedd gwleidyddol yn y sefydliad yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y llywodraeth a'r wrthblaid fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

9. Efallai y bydd cael Dirprwy Lywyddion ychwanegol yn helpu i sicrhau na fydd y disgwyliadau arnynt yn rhy anodd ac effaithus ar gyfrifoldebau teuluol a gofal, pe bai cyfarfodydd Cyfarfod Llawn y Senedd yn cael eu cynnal ar ddyddiau ychwanegol i ddydd Mawrth a dydd Mercher.

10. Nid oes rhaid penderfynu ar y mater hwn o reidrwydd ar y pwynt hwn ar wyneb y Bil sydd i ddod, ac yn hytrach gellid penderfynu trwy newidiadau i Reolau Sefydlog, yn ddiweddarach.

Nifer y Comisiynwyr Senedd mewn Senedd fwy

11. Nid oes angen cynyddu nifer y Comisiynwyr, gan y dylai maint y gwaith barhau i fod yn hylaw. Fodd bynnag, yn unol â'r pwynt uchod o ran cydbwysedd gwleidyddol mewn perthynas â'r Dirprwy Lywyddion, dylai fod o leiaf un Comisiynydd o Grŵp pob plaid a gynrychiolir yn y Senedd yn dilyn yr etholiad nesaf.

12. Gellid penderfynu ar y mater hwn hefyd trwy newidiadau i Reolau Sefydlog, yn ddiweddarach.

Canlyniadau Aelod yn newid ei blaid wleidyddol os caiff ei ethol drwy system rhestr gyfrannol gaeedig

13. Mae'r Grŵp yn deall pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng sicrhau bod y cyhoedd yn cael y Senedd a'r Pleidiau y gwnaethon nhw bleidleisio drostyn nhw, yn ogystal â sicrhau nad yw'r pleidiau hynny'n rhy bwerus a chyfyngol ar Aelodau unigol i fod â meddwl annibynnol mewn Senedd ddiwygiedig.

14. Os yw Aelod yn peidio â bod yn aelod o'r blaid fe'u hetholwyd iddi'n wreiddiol, dylent barhau fel Aelod annibynnol heb ymuno â Grŵp arall, ond ni ddylent beidio â bod yn Aelod o'r Senedd. Byddai hyn yn sicrhau nad oes gan bleidiau reolaeth lwyr dros Aelodau, a byddai hefyd yn caniatáu i Aelodau barhau i gyflawni eu dyletswyddau pe bai Aelod, er enghraifft, yn cael ei wahardd o'u grŵp dros dro o ganlyniad i unrhyw broses ddisgyblu.

15. Felly, os bydd newid yn effeithio ar aelodaeth grŵp pleidiol Aelod, ni fyddai hyn yn effeithio ar faterion megis dyrannu adnoddau, amser gwrthblaid y Senedd, a chymesuredd pwyllgorau a threfniadau cadeirydd a ddarperir i Grwpiau Senedd Cymru ar sail canlyniad yr etholiad ar ddechrau tymor y Senedd.

16. Dylai mecanweithiau a darpariaethau fod ar waith i sicrhau, os yw Aelod yn peidio â bod yn Aelod o'r Senedd, trwy greu swydd wag achlysurol, y dylai'r ymgeisydd nesaf ar restr y blaid yn cymryd ei le, oni bai y gallai'r unigolyn hwnnw fod wedi peidio â bod yn aelod o'r blaid ddywededig am unrhyw reswm. Gallai hyn gael goblygiadau o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau yn y Senedd, a dylid ystyried cynnal o leiaf 50/50 o gynrychiolaeth.